# Addewid Rhianta Corfforaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf

Dolenni i Siarter Rhianta Corfforaethol -
Addewid Cymru

## Beth yw Rhianta Corfforaethol?

Pan ddaw plentyn neu berson ifanc i mewn i'r system ofal, daw'r Cyngor yn Rhiant Corfforaethol. Mae rôl 'Rhiant Corfforaethol' yn gyfrifoldeb ar holl elfennau cyfunol y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod gan aelodau etholedig (Cynghorwyr), gweithwyr a sefydliadau partner gyfrifoldeb i ddarparu'r gofal a'r dulliau diogelu gorau posibl i blant sy'n derbyn gofal gennym ni. Er enghraifft, byddai'r Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau i Blant, i enwi ond ychydig, yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

- Caiff plentyn neu berson ifanc sydd rhwng 0 ac 16 oed ac sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol megis Cartref Preswyl neu mewn Gofal Maeth ei alw'n blentyn/person ifanc 'â phrofiad o dderbyn gofal.'

- Caiff person ifanc 16 i 25 oed sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, neu sydd wedi bod yn derbyn gofal, ei alw'n berson ifanc 'sy'n gadael gofal/wedi gadael gofal' neu 'â phrofiad o dderbyn gofal.'

## Ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn Rhondda Cynon Taf…

Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys grŵp ymroddedig o Gynghorwyr, gyda chymorth gan Uwch Swyddogion o bob rhan o'r Cyngor a sefydliadau eraill sy'n arwain wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol. Mae’r Bwrdd yn cyfarfod i drafod sut mae modd i ni gydweithio i sicrhau bod gan blant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, sy'n derbyn gofal, ac sy'n gadael gofal yr holl bethau sydd eu hangen arnyn nhw i fyw bywydau hapus, iach a hyderus.

Caiff Cynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor ,**'Gweithio gyda'n cymunedau 2024-2030'**, ei arwain gan Weledigaeth Rhondda Cynon Taf, sef:

*'Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.'*

Ein Hamcanion Lles:

1. **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.
2. **GWAITH A BUSNES** - helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.
3. **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** – RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.
4. **DIWYLLIANT A THREFTADAETH A'R GYMRAEG** - Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.

## Pam bod gan Rondda Cynon Taf Addewid Rhianta Corfforaethol? Beth yw ei ddiben?

Mae Rhianta Corfforaethol yn ymwneud â'r cyfrifoldeb ar y cyd sydd i'w fabwysiadu gan unrhyw gorff neu unigolyn yn y sector cyhoeddus sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, neu sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 'Uwchgynhadledd ar Brofiad o Dderbyn Gofal' ym mis Rhagfyr 2022 a daeth pobl ifainc o bob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru at ei gilydd i leisio'u profiadau o dderbyn gofal. Yn sgil hyn cafodd set o Egwyddorion ac Addewidion eu datblygu y mae modd i unrhyw gorff sector cyhoeddus ei fabwysiadu wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifainc sydd wedi derbyn gofal (Llywodraeth Cymru, 2023).

Mae'r Egwyddorion a'r Addewidion i blant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn adeiladu ar y datganiad a gafodd ei lofnodi gan Weinidogion a phobl ifainc â phrofiad o dderbyn gofal ledled Cymru ym mis Rhagfyr 2022 (gweler yr Atodiad). Arweiniodd hyn at siarter sy'n nodi'r addewidion y dylai aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol eu cyflawni wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

## Egwyddorion ar y Cyd ar gyfer Rhieni Corfforaethol
### (Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru)

- **Cydraddoldeb** – Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal i fwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawliau, dim ots pwy ydyw (Erthygl 1. CCUHP)
- **Dileu Stigma** – Byddwn yn cydnabod plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond yn ôl eu profiad o fod mewn gofal.

Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i beidio â gorfod dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn (Erthygl 2)

- **Gyda'n gilydd** – Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i gael ei glywed a'i gymryd o ddifrif (Erthygl 12).
- **Cymorth** – Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn deall eu profiadau, eu hanghenion a/neu'n gallu cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant.
- **Uchelgais** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn cyrraedd ei botensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i fod y gorau y gall fod (Erthygl 3 a 29) a'r hawl i ymlacio a chwarae (Erthygl 31).
- **Anogaeth** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a bod eraill yn malio amdano ac yn ei garu. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a chael ei warchod rhag niwed (Erthygl 19) ac oherwydd y dylid sicrhau trwy wirio'n rheolaidd bod pob plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu yn iawn (Erthygl 25
- **Iechyd da** – Byddwn yn darparu cymorth i gael mynediad at y gofal iechyd a'r cyngor cywir sydd ei angen i gefnogi'r iechyd corfforol, iechyd meddwl a'r llesiant cyffredinol gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd a'r gefnogaeth orau bosibl (Erthygl 24 a 39).
- **Cartref Sefydlog** – Byddwn yn chwilio am leoedd sefydlog i fyw sy'n addas i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i amddiffyniad arbennig os nad yw'n byw gyda'i deulu (Erthygl 20). Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i unrhyw drefniant mabwysiadu gael ei oruchwylio gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn helpu'r person ifanc i dyfu a datblygu, ei fod yn gyfreithlon a'i fod yn blaenoriaethu buddiannau gorau plant (Erthygl 21).
- **Addysg Dda** – Byddwn yn darparu cyfleoedd a chymorth dysgu a datblygu i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a byddwn yn ei helpu i fod yr hyn mae am fod. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i addysg (Erthygl 28 a 29).
- **Ffynnu** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn cael ei baratoi ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i gyrraedd ei botensial (Erthygl 3 a 29).
- **Gydol Oes** – Byddwn yn gweithio i ddarparu mynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl gadael gofal, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhain. Mae hyn oherwydd bod gan oedolion ddyletswydd i weithredu er lles gorau plant (Erthygl 3).

Bydd Rhieni Corfforaethol yn Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'r 'Addewid Cymru Gyfan' drwy addewid lleol sy'n seiliedig ar yr hyn y mae llais cyfunol pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf yn ei ddweud wrthon ni o ran datblygu a gwella gwasanaethau (gweler yr Atodiad).

**Yr Addewidion i Bobl ifainc sydd â Phrofiad o Dderbyn Gofal (Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru)**

- Byddwn yn ymroi i wrando ar yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed a'u hystyried yn llawn wrth i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gael eu gwneud.

- Byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal gyda pharch.

- Byddwn yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt.

- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal am yr hyn sy'n digwydd a pham.

- Byddwn yn defnyddio iaith syml wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

- Byddwn yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

- Byddwn yn gweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal i'w helpu i gyflawni ei nodau.

- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal am y broses o gyflwyno cwyn os ydynt yn teimlo nad ydym yn cadw at y siarter hon.

- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal am yr hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod eu barn, eiu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud neu pan mae'r unigolyn yn anhapus ac eisiau i rywbeth stopio, ddechrau neu newid.

## Llais cyfunol pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf

Mae ein hymgynghoriadau â phlant a phobl ifainc yn darparu'r argymhellion canlynol ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys y 7 blaenoriaeth fel addewid lleol sy'n adeiladu ar lais cyfunol plant a phobl ifainc.

**Argymhellion**

- **Gwneud yn siŵr bod pob oedolyn y mae modd ymddiried ynddo yn esbonio pwy yw e.** Ystyried rhoi gwybodaeth sy'n gyfeillgar i blant fel proffiliau 'Amdanaf i' neu lythyr sy'n gyfeillgar i blant i'r person ifanc cyn cyfarfod ag ef neu ei roi i Weithiwr Cymdeithasol/aelod allweddol o staff.
- **Mynediad at wybodaeth.** Datblygu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau sy'n hawdd eu defnyddio a'u rhannu. Mae pobl ifainc **16 oed a hŷn** wedi rhoi gwybod i ni eu bod nhw am gael mynediad hawdd at wybodaeth ar gyfer budd-daliadau, materion tai, cymorth tenantiaeth a hawliadau cyllid.
- **Mae plant a phobl ifainc wedi rhoi gwybod i ni ym mha ffordd maen nhw eisiau cymryd rhan.** Bydden nhw'n hoffi cael mwy o achlysuron i gwrdd ag eraill wyneb yn wyneb, gweithgareddau gyda natur, chwaraeon, celf a chrefft a cherddoriaeth a drama.
- **Edrych ar wahanol ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â theulu.** Mae pobl ifainc wedi rhoi gwybod i ni yr hoffen nhw gael mwy o gysylltiad â'u teuluoedd.
- **Cymorth iechyd meddwl a lles.** Hoffai pobl ifainc gael cymorth pellach gyda'u gweithgareddau iechyd meddwl a lles.

## Ein 7 Blaenoriaeth sy'n cysylltu â'r Egwyddorion ac Addewidion ar y Cyd...

1. **Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn teimlo eu bod yn derbyn gofal a chymorth da.**
2. **Bod â llais i ddatblygu a gwella gwasanaethau yn rhan o'n cylch adborth 'Dywedoch chi, byddwn ni, fe wnaethon ni...' a rhoi gwybod i chi sut rydyn ni wedi gwneud gwelliannau i'ch gofal a'ch cymorth.**
3. **Mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles.**
4. **Cartref sefydlog sy'n gyfforddus ac yn ddiogel tra eich bod chi'n derbyn gofal ac wrth adael gofal.**
5. **Gwybodaeth hygyrch a chymorth ar gyfer byw'n annibynnol.**
6. **Gwella deilliannau ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.**
7. **Dathlu cyflawniadau plant a phobl ifainc i ddatblygu'u dyheadau presennol a'u dyheadau yn y dyfodol.**

## Sut byddwn ni'n mynd ati i wireddu'r blaenoriaethau?

Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ddatblygu a'i gytuno i roi'r 7 blaenoriaeth a amlinellir yn yr Addewid ar waith.

Bydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cytuno ar gynllun gweithredu, gyda deilliannau cyraeddadwy i roi'r **7 blaenoriaeth** yma ar waith.

Byddwn ni'n edrych ar bob blaenoriaeth ac yn gosod targedau a cherrig milltir cyraeddadwy i gyrraedd y rhain. Mae'n bwysig clywed llais plant a phobl ifainc drwy eu syniadau a'u barn er mwyn gwella gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf.

Byddwn ni hefyd yn ysgrifennu adroddiad bob 12 mis i ddarparu diweddariadau cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn, a byddwn ni'n darparu cylchlythyr a ffeithluniau i blant a phobl ifainc i gefnogi ein **cylch adborth 'Dywedoch chi, byddwn ni, fe wnaethon ni...'.**

## Ein Haddewid/Cynllun ar gyfer Plant a Phobl Ifainc...

Mae ein haddewid/cynllun wedi'i ysgrifennu ar gyfer Plant a Phobl Ifainc yn seiliedig ar eu llais cyfunol.

Mae modd i Blant a Phobl ifainc, drwy'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ddwyn y Cabinet i gyfrif er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn.

## 1. Sut byddwn ni'n gofalu amdanoch chi ac yn eich cefnogi?.

**(Yn cysylltu â'r 'Egwyddorion' Cymorth, Gyda'n Gilydd a Dileu Stigma, a'r 'Addewidion' i ymroi i wrando a defnyddio iaith syml (gan gynnwys Erthygl 2 a 12 CCUHP).**

- Byddwn ni'n sicrhau eich bod chi'n teimlo eich bod chi'n cael gofal da, yn ddiogel a bod gyda chi le cyfforddus i fyw.
- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr oedolion sy'n gweithio gyda chi wedi'u hyfforddi'n dda, yn deall eich anghenion unigol ac yn gwybod beth yw eich hawliau ac yn eich cefnogi i wybod am eich hawliau fel plentyn trwy iaith syml.

## 2. Sut byddwn ni'n eich cefnogi i gael llais?

**Bydd eich llais yn cael ei glywed i wella gwasanaethau yn rhan o'n cylch adborth 'Dywedoch chi, byddwn ni, fe wnaethon ni...' (Yn cysylltu â'r Egwyddorion Cydraddoldeb a Gyda'n Gilydd a chlywed llais pobl ifainc ac Erthygl 12 CCUHP).**

- Byddwn ni'n gwrando ar eich dymuniadau, eich barn a'ch teimladau, a byddwn ni'n rhoi cymorth i chi ac yn gweithio gyda chi i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chi neu sy'n effeithio arnoch chi.
- Mae ein hachlysuron cymryd rhan yn gyfle i glywed eich llais ar sut yr hoffech chi wella gwasanaethau ac i'ch llais gael ei glywed gan aelodau ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol i wella gwasanaethau i blant a phobl ifainc.
- Byddwn ni'n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi bob blwyddyn am y cynnydd rydyn ni wedi’i wneud drwy adroddiad/cylchlythyr a thrwy ymgysylltu, drwy sesiwn holi ac ateb flynyddol wyneb yn wyneb gyda’n Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

## Os nad ydych chi'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth rydyn ni'n eu cynnig

**(Yn cysylltu â'r Addewidion - Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal am y broses o gyflwyno cwyn os ydynt yn teimlo nad ydym yn dilyn (cadw) at y siarter hon).**

- Mae gyda chi'r hawl i leisio'ch safbwyntiau, eich barn a'ch teimladau. Mae modd i chi siarad â'r bobl ganlynol i roi cymorth i chi.

  - **Eich Cynhaliwr neu Gynhalwyr**
  - **Athro/Athrawes**
  - **Gweithiwr Cymdeithasol**
  - **Gweithiwr Ieuenctid**
  - **Gweithiwr Allweddol neu Gynghorydd Personol**
  - **Eich Nyrs neu Feddyg**
  - **Mae modd i chi wneud cwyn drwy wefan RhCT, yn yr adran 'Canmoliaeth a Chwynion', neu ofyn i oedolyn mae modd i chi ymddiried ynddo eich cefnogi i wneud hyn.**

- Os ydych chi am siarad â rhywun sy’n annibynnol ar y bobl uchod ac a fydd ond yn gweithio yn ôl eich barn, eich dymuniadau a’ch teimladau, mae modd i chi ofyn am gael eiriolwr annibynnol o **TGP Cymru**.
- Mae modd i chi ofyn i unrhyw un o'r bobl uchod drefnu i chi gael ***eiriolwr annibynnol***, neu mae modd i chi gysylltu â TGP Cymru yn uniongyrchol eich hun:
- Rhadffôn: 0800 4703930
- Gwefan: **www.tgpcymru.org.uk**
- Rhif ffôn: **01443 805940 /**E-bost: cwmtafmorgannwg@tgpcymru.org.uk

## 3. Sut mae modd i ni eich cefnogi chi i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles?

**(Yn cysylltu â'r egwyddorion Anogaeth ac Iechyd Da, yr addewid ar gyfer 'Cydymdeimlad' ac Erthygl 24 a 39 CCUHP)**

- Byddwn ni'n sicrhau bod pob oedolyn yr ymddiriedir ynddo yn esbonio pwy ydyn nhw trwy ddarparu gwybodaeth sy'n addas i blant a phobl ifainc neu lythyr sy'n addas i blant.
- Dywedodd pobl ifainc wrthon ni y bydden nhw'n dymuno cael gwybodaeth hygyrch mewn amrywiaeth o fformatau y byddai modd cael mynediad atyn nhw a'u rhannu'n hawdd ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u llesiant.
- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth ar gyfer eich iechyd, ffitrwydd a lles yn eich cymuned trwy ein gwefannau i blant a phobl ifainc.
- Byddwn ni'n sicrhau bod yr oedolion sy'n eich cefnogi chi'n gwybod beth sydd ei angen arnoch chi i gael ffordd iach o fyw.

## 4. Sut mae modd i ni eich cefnogi i deimlo'n ddiogel a chael lle sefydlog i fyw?

**(Yn cysylltu â'n Hegwyddorion/Addewid ar gyfer 'Cartref Sefydlog', Erthygl 20 a 21 CCUHP)**

- Ein gweledigaeth ni yw darparu cartref sefydlog i blant a phobl ifainc a darparu continwwm o lety a chymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal i ddiwallu anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn Rhondda Cynon Taf, wrth ddatblygu llwybr llety clir ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.
- Byddwn ni'n darparu cartref/lle cyfforddus i fyw ynddo fel eich bod chi'n teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal priodol.
- Dywedodd pobl ifainc wrthon ni y bydden nhw'n dymuno cael amrywiaeth o ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â theulu.
- Dywedodd pobl ifainc wrthon ni hefyd bod aros yn 'lleol' yn bwysig iddyn nhw (trwy fideos).

## 5. Sut mae modd i ni eich cefnogi chi i gael mynediad at yr wybodaeth yr hoffech chi neu sydd ei hangen arnoch chi a chymorth ar gyfer byw'n annibynnol?

**(Mae hyn yn cysylltu â'r Egwyddor 'Ffynnu' o ran newidiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol. Hefyd, yr Egwyddor 'gydol oes' i gefnogi pobl ifainc**

**yn rhan o gontinwwm ar gyfer oedolaeth a hawl i bobl ifainc gyrraedd eu potensial (CCUHP Erthygl 3 a 29)**

- Ar hyn o bryd rydyn ni'n datblygu ein gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd (gwefan) ac adnoddau eraill ar gyfer plant a phobl ifainc.
- Mae pobl ifainc 16 oed a hŷn wedi rhoi gwybod i ni eu bod nhw am gael mynediad hawdd at wybodaeth ar gyfer budd-daliadau, materion tai, cymorth tenantiaeth a hawliadau cyllid.
- Mae pobl ifainc o'r sesiynau galw heibio 16+ wedi rhoi gwybod i ni y bydden nhw'n dymuno i'r amseroedd galw heibio gael eu hymestyn o 1 diwrnod yr wythnos i naill ai 2 neu 3 diwrnod yr wythnos.
- Gall iaith y corff fod yn anodd i bobl ifainc sy'n ceisio cael mynediad at eiriolaeth pan fo gyda nhw anabledd a chaiff hunan-adrodd gan riant/cynhaliwr ei ddefnyddio. Sut mae modd i ni gefnogi pobl ifainc ag anabledd ymhellach i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth?
- Sut mae modd i ni gefnogi pobl ifainc â niwroamrywiaeth i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw?

## 6. Sut mae modd i ni eich cefnogi chi i gael deilliannau gwell ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth?

**(Yn cysylltu â'r Egwyddorion ar gyfer 'Addysg Dda' a darparu cyfleoedd yn rhan o'r hawliau i gael addysg dda (Erthygl 28 a 29) a gwrando ar farn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifainc a'u bod yn cael eu clywed a'u hystyried yn llawn wrth i benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw gael eu gwneud (Erthygl 12).**

- Dywedodd pobl ifainc 16+ wrthon ni fod GofaliWaith yn eu helpu'n fawr ac mae'n bwysig cynnal perthnasoedd â staff allweddol.
- Byddwn ni'n eich cefnogi i ymgysylltu â'ch addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i gael dyheadau uchel ar gyfer eich dyfodol.
- Byddwn ni'n rhoi gwybodaeth i chi am gyfleoedd addysg amgen (os oes eu hangen arnoch chi) ac yn eich cefnogi i lwyddo.
- Byddwn ni'n eich cefnogi i gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant, prentisiaethau, gwirfoddoli a chyflogaeth.

## 7. Sut mae modd i ni eich cefnogi i ddathlu eich cyflawniadau ac i ddatblygu eich dyheadau presennol a'ch dyheadau yn y dyfodol?

**(Yn cysylltu ag Egwyddorion ar gyfer 'Uchelgais' ac Addewidion i'ch cefnogi i gyrraedd eich potensial (Erthyglau CCUHP, 3, 29 a 31)**

- Cafodd achlysur Dathlu ei gynnal ym mis Tachwedd 2023 a daeth dros 100 o bobl gan gynnwys pobl ifainc, rhieni/cynhalwyr a staff ynghyd â'n Bwrdd Rhianta Corfforaethol i ddathlu cyflawniadau plant a phobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf.

- Byddwn ni'n parhau i gynnal achlysuron blynyddol i ddathlu eich cyflawniadau a'ch dyheadau.
- Byddwn ni'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn cyrraedd ei botensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol